

Ofcom

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cynnwys

Adran		Tud
1	Cyflwyniad	3
2	Cefndir	5
3	Cynllunio a darparu gwasanaethau	7
4	Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	8
5	Wyneb cyhoeddus Ofcom	11
6	Rhoi'r cynllun ar waith	14
7	Cysylltu ag Ofcom	17

Adran 1

Cyflwyniad

1.1 Dan adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus¹ baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg, a fydd yn nodi'r mesurau y bwriadant eu cymryd ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg mewn cysylltiad â'r gwasanaethau a ddarparant i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn benodol, diben cynlluniau o'r fath yw gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

1.2 Mae Ofcom wedi cael Cynllun Iaith Gymraeg ar sail wirfoddol er 30 Mawrth 2006.

1.3 Ar 17 Gorffennaf 2008, cafodd Ofcom ei bennu gan Weinidogion Cymru yn gorff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac, ar 15 Rhagfyr 2008, hysbyswyd Ofcom gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 7 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 fod gofyn i Ofcom baratoi Cynllun Iaith Gymraeg.

1.4 Ar 26 Mawrth 2010, darparodd Ofcom gynllun iaith Gymraeg arfaethedig o dan adran 12 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Ni chymeradwywyd y cynllun iaith Gymraeg arfaethedig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg oherwydd roedd y Bwrdd am gynnwys mesur ychwanegol yn y cynllun iaith Gymraeg ynghylch Ofcom yn arfer ei swyddogaeth o ddyfarnu trwyddedau radio lleol.

1.5 Ar 28 Mai 2010, drwy arfer ei bwerau o dan adran 14(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, cyfeiriodd y Bwrdd y mater o Gynllun Iaith Gymraeg Ofcom i Weinidogion Cymru. Ar 29 Mai 2012, drwy arfer eu pwerau o dan adran 14(5) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, penderfynodd Gweinidogion Cymru ar delerau'r Cynllun hwn, sef Cynllun Iaith Gymraeg Ofcom. Daw'r Cynllun Iaith hwn i rym ar 29 Awst 2012.

1.6 Mae'r Cynllun hwn yn ymdrin â'r gwasanaethau y mae Ofcom yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru ac yn nodi'r mesurau y bwriadwn eu cymryd ynghylch y defnydd o'r iaith Gymraeg er mwyn cyflawni'n dyletswyddau o dan adran 5 o'r Ddeddf.

1.7 Yn y Cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term

¹ Sef, y cyrff hynny a bennir yn adran 6 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 fel cyrff cyhoeddus neu a bennir fel cyrff cyhoeddus drwy orchymyn a wnaed o dan adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, neu sy'n arfer swyddogaethau statudol mewn perthynas â'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru gan gyrff eraill ac sydd wedi cael hysbysiad o dan adran 7 o'r Ddeddf.

yn cynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau. Mae'r term 'cyhoedd' hefyd yn cynnwys cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrhycholi cwmnïau cyfyngedig. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys pobl mewn swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. Felly, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus yn cael eu cynnwys dan y gair 'cyhoedd' pan fyddant yn cyflawni'r dyletswyddau swyddogol hynny, hyd yn oed a hwythau'n bobl gyfreithiol.

1.8 Gellir cael mwy o wybodaeth am gwmpas a phwmpas cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd o dan adran 9 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (gweler <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330010843/http://www.bylb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/119.pdf>).

Adran 2

Cefndir

2.1 Ofcom yw rheoleiddiwr annibynnol a'r awdurdod cystadleuaeth ar gyfer diwydiannau cyfathrebu'r Deyrnas Unedig, gyda chyfrifoldebau dros deledu, radio, telegyfathrebu drwy linellau sefydlog a ffonau symudol, ynghyd â'r tonnau awyr a ddefnyddir gan ddyfeisiau di-wifr. Ac yntau wedi'i sefydlu o dan Ddeddf Swyddfa Cyfathrebiadau 2002, mae gan Ofcom ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth pan mae hynny'n briodol.²

2.2 Wrth gyflawni'i ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion sy'n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol yn yr amgylchiadau. Mae'r rhain yn cynnwys barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol ac aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal â buddiannau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r DU, buddiannau gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a buddiannau pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.³

2.3 Yn ogystal â'i bencadlys yn Llundain, mae gan Ofcom bresenoldeb ledled y DU gyda swyddfeydd rhanbarthol ar draws Lloegr a swyddfeydd cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r strwythur hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r sefydliad i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un rhan o'r DU neu ar bob rhan o'r DU fel ei gilydd.

2.4 Mae'r strwythur hwn hefyd yn galluogi Ofcom i dargedu a datblygu perthynas unigryw â rhanddeiliad Cymru ymhob sector drwy gyfrwng cyfarfodydd a chyfathrebiadau. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau a chanddynt adrannau yng Nghymru megis BBC Cymru/Wales, ITV Wales a BT yn ogystal â chyrrff Cymreig megis S4C a Llais Defnyddwyr Cymru. Mae perthynas weithio dda wedi'i sefydlu gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a chynhelir trafodaethau rheolaidd gyda'r Cynulliad ac aelodau etholedig ar draws y llywodraeth. Mae'r fframwaith hwn hefyd yn ein galluogi i ymgynghori'n helaeth â dinasyddion a defnyddwyr yng Nghymru drwy seminarau a digwyddiadau cyhoeddus.

2.5 Mae gan Ofcom gynrhychiolwyr o Gymru ar ei Banel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'i Fwrdd Cynnwys. Hefyd, mae gan Ofcom Bwyllgor Ymgynghorol dros Gymru, a sefydlwyd i roi cyngor i Ofcom am fuddiannau a barn pobl sy'n byw yng Nghymru ar bob mater cyfathrebu yn ogystal â'r cyfle i ddylanwadu ar bolisiau rheoleiddio.

2.6 Mae gan Ofcom linell ffôn Gymraeg yn ei Ganolfan Gyswllt ar gyfer delio â chwynion cwsmeriaid. Gellir cysylltu â'r gwasanaeth Gymraeg ar 0300 123

² Adran 3(1)

³ Adrannau 3(4)(k) ac (l).

2023 neu 029 7981 3042.

2.7 Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ofcom ar wefan Ofcom yn www.ofcom.org.uk. Ceir manylion llawn ar gyfer Ofcom ar ddiwedd y Cynllun hwn.

Adran 3

Cynllunio a darparu gwasanaethau

Polisiâu, deddfwriaeth a chynlluniau

3.1 Bydd ein polisiâu, ein cynlluniau a'n gwasanaethau yn gyson â'r Cynllun hwn.

3.2 Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, cynlluniau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r Cynllun hwn.

Darparu gwasanaethau

3.3 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.

3.4 Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau a gyflawnir ar ein rhan gan drydydd partïon

3.5 Byddwn ni yn rhoi ystyriaeth briodol i'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r gwasanaethau hynny'n cynnwys:

- a. paratoi a chyhoeddi ein Canllawiau Lleolrwydd, a
- b. cyflawni ein swyddogaethau trwyddedu, mewn modd sy'n anelu at sicrhau bod deunydd lleol yn cael ei gynnwys mewn darllediadau trwyddedig, gan gynnwys deunydd sydd â chynnwys ieithyddol penodol a/neu'n cael ei gyflwyno mewn modd ieithyddol penodol a hynny, lle bo angen, drwy osod amodau ar y drwydded.

(Deddf Darlledu 1990, adrannau 85 a 105; Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 314)

3.6 Bydd unrhyw drefniadau neu gytundebau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â rhannau perthnasol y Cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Safonau ansawdd

3.7 Bydd ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r un safon a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen, lle bynnag y bo

hynny'n rhesymol ymarferol.

Adran 4

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

4.1 Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4.2 Bydd ein harfer safonol fel a ganlyn:

- Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb yr un fath yn union â'r targed ar gyfer ymateb i lythyrau Saesneg;
- Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig;
- Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau at sawl derbynnydd yng Nghymru, byddant yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddynt i gyd eu derbyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig;
- Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd;
- Bydd dogfennau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael;
- Bydd dogfennau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael;
- Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth ar e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur;
- Caiff pob copi called o ohebiaeth Gymraeg a anfonwn ei lofnodi gan yr awdur neu ar ei ran;
- Byddwn yn datblygu system i gofnodi dewis iaith y rheini sy'n dymuno gohebu â ni yn Gymraeg a'i darparu i holl staff Ofcom.

Cyfathrebu dros y ffôn

4.3 Rydym yn croesawu gohebiaeth dros y ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- 4.4 Yng Nghymru, ein harfer safonol yw sicrhau bod y cyhoedd yn cael siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.
- 4.5 Byddwn yn annog ein staff yng Nghymru i gyfarch galwyr yn ddwyieithog wrth godi'r ffôn ac i ddefnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb ffôn personol.
- 4.6 Os yw'r sawl sy'n ffonio Ofcom yn awyddus i siarad Cymraeg, byddwn yn ceisio trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg a all ddelio â'r ymholiad.
- 4.7 Os bydd galwr yn galw un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond nad yw'r person sy'n derbyn yr alwad yn gallu gwneud hynny, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- 4.8 Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael i ddelio â'r ymholiad, rhoddir dewis i'r galwr, fel sy'n briodol, i gael siaradwr Cymraeg i'w ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno'u hymholiad yn Gymraeg, trwy lythyr, ffacs neu e-bost.
- 4.9 Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gefnogaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Fe'i hysbysebir ochr yn ochr â'r gwasanaeth iaith Saesneg.
- 4.10 Ni fyddai'n ymarferol i'n swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg; fodd bynnag, rydym wedi sefydlu llinell ffôn Gymraeg yn ein Canolfan Gyswilt er mwyn delio ag ymholiadau oddi wrth y cyhoedd yn Gymraeg.

Cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru

- 4.11 Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus oni fyddwn yn gwybod y bydd pawb a fydd yn cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.
- 4.12 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a byddwn yn gwahodd y cyhoedd i'n hysbysu ymlaen llaw am ba iaith byddant yn dymuno'i siarad.
- 4.13 Byddwn yn rhoi gwybod i'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael – ac yn annog pobl i gyfrannu yn Gymraeg.
- 4.14 Ein harfer safonol fydd darparu papurau cyffredinol a gwybodaeth gysylltiedig arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru, megis manylion y siaradwyr a'r agenda, yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.15 Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, ein harfer safonol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynychu, fel y

bo'n briodol. Bydd siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodyn iaith Gwaith neu eitem debyg i ddangos eu bod yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

4.16 Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf posib a, phan fo modd, yn sicrhau y bydd aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rheini y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg.

4.17 Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater drwy ohebu yn Gymraeg.

4.18 Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir gan ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda a chyfarpar tebyg.

4.19 Oherwydd lleoliad ein swyddfeydd eraill, ni fyddai'n ymarferol i'n staff yn y cyfryw swyddfeydd gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfwng y Gymraeg.

Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

4.20 Pan fyddwn yn cynnal ymchwil yng Nghymru, ein harfer safonol fydd sicrhau y bydd unrhyw gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

4.21 Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, gofynnir i ymatebwyr a ydynt yn dymuno ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

4.22 Pan fyddwn yn trefnu seminarau neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd, byddwn yn asesu a oes angen eu darparu yn Gymraeg.

Adran 5

Wyneb cyhoeddus Ofom

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

5.1 Caiff yr holl gyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, deunydd arddangos a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu ar ffurf fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - a bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un adeg a bydd yr un mor hawdd cael gafael arnynt.

5.2 Bydd unrhyw hysbysebion a gaiff eu cyhoeddi mewn papurau newydd Saesneg eu hiaith (neu ddeunyddiau tebyg) ac sy'n cael eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau ar wahân yn Gymraeg a Saesneg (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

5.3 Dim ond yn Gymraeg y bydd hysbysebion yn ymddangos mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

5.4 Nid yw Ofcom yn hysbysebu'n gyson ar deledu a radio, ond os darlledir hysbysebion o'r fath mewn rhaglenni Cymraeg, cânt eu darlledu yn Gymraeg.

5.5 Wrth ddewis staff i ofalu am stondinau ac arddangosfeydd yng Nghymru, ein harfer safonol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynychu, fel y bo'n briodol. Bydd siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynau laith Gwaith neu eitem debyg i ddangos eu bod yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg.

Cyhoeddiadau

5.6 Mae Ofcom yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori a chyhoeddiadau eraill ar faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr neu sy'n uniongyrchol berthnasol i ddefnyddwyr. Pan fydd Ofcom yn cyhoeddi fersiwn *Plain English* o gyhoeddiad, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg ar yr un pryd, lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol.

5.7 Lle bo hynny'n rhesymol neu'n ymarferol, byddwn yn cyhoeddi deunydd a fydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg.

5.8 Bydd deunydd a anelir at gynulleidfa benodol neu gyfyngedig yn fwy tebygol o fod ar gael mewn un iaith. Onid yw dogfen ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd pris y ddogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad uniaith, a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.

Gwefannau

5.9 Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau Cymraeg a Saesneg.

5.10 Ein harfer safonol fydd darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

5.11 Byddwn yn paratoi rhaglen, y gwahoddir Comisiynydd y Gymraeg i gytuno iddi, a fydd yn nodi sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan dros amser. Manylir ar hyn yn y cynllun cyflawni a fyddwn yn paratoi yn unol â pharagraff 6.17 isod.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

5.12 Ein harfer safonol fydd sicrhau y bydd pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

5.13 Bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd – a byddwn yn sicrhau y bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd cael gafael ar y ddwy. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Hunaniaeth gorfforaethol

5.14 Mae gennym hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Mae ein henw, manylion cysylltu, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein papur pennawd a defnyddiau ysgrifennu a deunydd megis cardiau busnes, bathodynau adnabod, trwyddedau, tocynnau, gwahoddiadau, cyfathrebiadau electronig a cherbydau.

5.15 Y mae templed safonol ar gyfer cyfathrebiadau electronig ar gyfer ymwadiadau, llofnodion ac ymatebion allan-o'r-swyddfa ar gael ar ein mewnrwyd.

5.16 Gallwn ddefnyddio deunydd brandio Cymraeg yn unig ar gyfer rhai mentrau.

Arwyddion yng Nghymru

5.17 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein holl arwyddion parhaol a thros dro, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog ac y bydd y testun Cymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd a bod yn ddarllenadwy.

5.18 Byddwn yn glynu wrth yr arfer hwn pryd bynnag y gosodir arwyddion am y tro cyntaf, neu bryd bynnag y byddwn yn newid arwyddion.

5.19 Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran maint, fformat, ansawdd ac amlygrwydd.

5.20 Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwydd gan gynnwys arwyddion electronig.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

5.21 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gaiff eu cyhoeddi mewn papurau newydd Saesneg eu hiaith (neu gyfryngau tebyg) ac sy'n cael eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau ar wahân yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hysbysiadau'n ymddangos yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

5.22 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un fath o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – pa un ai a ydynt yn cael eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau ar wahân yn Gymraeg a Saesneg.

5.23 Yn y cyfryngau Saesneg, gall swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol gael eu hysbysebu'n Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

5.24 Caiff hysbysiadau recriwtio a gyhoeddir mewn cyfnodolion Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) a ddosberthir ar draws y DU, fod yn Saesneg oni fo'r swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac yn yr achos hwnnw gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog.

5.25 Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir yn rhywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

5.26 Bydd datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg a Saesneg pan fydd y cynnwys yn berthnasol i Gymru neu pan fydd o ddiddordeb penodol i ddefnyddwyr a busnesau yng Nghymru.

5.27 Rydym eisoes yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

Adran 6

Rhoi'r cynllun ar waith

6.1 Byddwn yn pennu'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Gall y gofyniad hwn gael ei ddiffinio fel elfen o weithle neu dîm, neu gall fod yn rhan o swydd benodol.

6.2 O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau i ganfod nifer, lefel gallu a lleoliad y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn canfod y staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, os yw hyn yn berthnasol ac yn briodol iddynt ar gyfer cyflawni'u dyletswyddau.

6.3 Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgareddau recriwtio a datblygu fel yr amlinellir ymhellach yn y cynllun cyflawni.

6.4 Yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, byddwn yn ceisio gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr am swyddi a'r staff presennol, lle mae hyn yn berthnasol i'r swydd benodol. Trafodir hyn o dan Recriwtio, isod.

Recriwtio

6.5 Rydym yn croesawu gohebiaeth recriwtio yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn gwneud hyn yn amlwg mewn hysbysebion recriwtio sy'n benodol i swyddi yn ein swyddfa yng Nghymru.

6.6 Ein dull recriwtio safonol yw gofyn i ymgeiswyr wneud cais drwy ddarparu CV a llythyr cais (yn eu dewis iaith) ac felly nid ydym yn darparu pecynnau gwybodaeth na ffurflenni cais.

6.7 Wrth recriwtio staff ar gyfer ein swyddfa yng Nghymru, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd drwy ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir dan Staffio uchod.

6.8 Pan benderfynir bod y gallu i siarad ac/neu ysgrifennu yn Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, caiff hyn ei nodi mewn hysbysebion ac yn adran cymwyseddau'r swydd.

6.9 Os na ellir dod o hyd i ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, bydd y sawl a benodir yn cael ei annog i ddysgu Cymraeg. Gellir penodi unigolyn nad yw'n medru'r Gymraeg i swydd lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn hanfodol, os gellir caniatáu amser iddo ddysgu'r iaith. Yn yr achos hwn, byddwn yn gwneud trefniadau dros dro lle gellir darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (drwy ddefnyddio, er enghraifft, staff sy'n siarad Cymraeg o fan arall yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Hyfforddiant iaith

6.10 Rydym yn cefnogi ac yn annog ein staff i ddysgu Cymraeg neu i wella'u Cymraeg, os yw hyn yn berthnasol ac yn briodol iddynt ar gyfer cyflawni'u dyletswyddau.

6.11 Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith, a thu allan i'r oriau hynny os yw hynny'n well ganddynt.

Hyfforddiant galwedigaethol

6.12 Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, bryd bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

6.13 Darperir ar gyfer yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

6.14 Ar bob cyfle posibl, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol i sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu'n unol â'r Cynllun hwn.

Trefniadau mewnol

6.15 Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun hwn sy'n berthnasol i'w gwaith.

6.16 Byddwn yn penodi aelod uwch o staff i gydlynu'r gwaith angenrheidiol ar gyfer cyflwyno, monitro ac adolygu'r Cynllun hwn.

6.17 Byddwn yn paratoi cynllun cyflawni pedair blynedd manwl a fydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'r Cynllun hwn. Daw'r cynllun cyflawni i rym ar y dyddiad y daw'r Cynllun hwn i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau a therfynau amser ar gyfer cydymffurfio.

6.18 Bydd yr holl aelodau staff yn ein holl swyddfeydd, a'r cyhoedd yng Nghymru, yn cael gwybod am fodolaeth y Cynllun hwn. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn lle amlwg. Bydd y Cynllun hwn hefyd ar gael i'r staff i gyd drwy gyfrwng y fewnwyd. Byddwn yn diweddarau'r cyfarwyddiadau desg, a dogfennau canllaw tebyg, ar gyfer ein staff ymhob un o'n swyddfeydd i sicrhau eu bod yn gwybod sut mae gweithredu'r mesurau yn y Cynllun hwn sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau hwy.

6.19 Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi ar gyfer pob aelod perthnasol o staff, ymhob un o'n swyddfeydd, i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun hwn – ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

6.20 Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwys y byddwn yn eu defnyddio i helpu gyda'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun hwn.

6.21 Bydd unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru nad ymdrinnir yn benodol ag ef yn y Cynllun hwn, yn cael ei gynnal mewn modd a fydd yn gyson ag egwyddorion cyffredinol y Cynllun hwn.

Monitro

6.22 Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun cyflawni a ddaw gyda'r Cynllun hwn.

6.23 Byddwn yn ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at y cynnydd sy'n cael ei wneud yn rhoi'r Cynllun hwn ar waith, fel y bo'n briodol.

6.24 Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Gomisiynydd y Gymraeg, pan wna'r Comisiynydd gais amdanynt, gan amlinellu'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn rhoi'r Cynllun hwn ar waith.

Adolygu a diwygio'r cynllun

6.25 Byddwn yn adolygu'r Cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym.

6.26 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r Cynllun hwn, neu gynnig newidiadau i'r Cynllun hwn, oherwydd newidiadau yn ein swyddogaethau, neu yn yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

6.27 Ni wneir dim newidiadau i'r Cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Adran 7

Cysylltu ag Ofcom

7.1 Os ydych am ysgrifennu at swyddfa Cymru Ofcom, ein cyfeiriad yw:

Ofcom
3ydd llawr
2 Pentir Caspian
Caspian Way
Caerdydd
CF10 4DQ

7.2 Os ydych am ysgrifennu at bencadlys Ofcom, ein cyfeiriad yw:

Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain
SE1 9HA

7.3 Os ydych am gysylltu ag Ofcom ar ein llinell Gymraeg, cysylltwch â ni ar 0300 123 2023 neu 020 7981 3042.

7.4 Rydym hefyd yn derbyn ceisiadau arlein drwy ein gwefan ar y safle 'Cyngor a chwynion'.

7.5 Gellir gweld manylion llawn am sut i gysylltu ag Ofcom ar ein gwefan ar y safle 'Cysylltu â ni'.